Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Rainbow Reef Daycare**

**Uned 6 Parc Busnes Johnston**
**Ffordd yr Orsaf**
**Hwlffordd**
**SA62 3PL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/05/2023

# Rainbow Reef Daycare

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Rainbow Reef Daycare Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 51 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13 Tachwedd 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae’r plant yn hapus iawn ac wedi setlo yn y lleoliad hwn. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi oherwydd bod pobl yn gwrando arnynt ac maent yn meithrin cysylltiadau da ag eraill. Maent yn mwynhau eu chwarae yn fawr ac maent yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau unigol.

Mae'r staff yn garedig ac yn dyner ac maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant bob amser. Maent yn dilyn polisïau'r lleoliad i gadw'r plant yn ddiogel ac maent yn gwneud ymdrech weithredol i hyrwyddo ffordd iach o fyw. Mae'r staff yn cefnogi'r plant yn effeithiol yn eu chwarae a'u dysgu.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd agored a gaiff ei gynnal a'i gadw'n dda sy'n cefnogi datblygiad ac annibyniaeth y plant. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r arweinwyr yn darparu digon o adnoddau o ansawdd da sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o gamau datblygu a diddordebau. Mae'r arweinwyr wedi gwella'r amgylchedd ac maent yn parhau i'w ddatblygu ymhellach.

Nid yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn gyson. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad ac maent yn canolbwyntio ar welliant parhaus. Fodd bynnag, rydym wedi nodi meysydd pwysig i'w gwella. Mae'r arweinwyr yn ymdrin â'r rhain.

| **Llesiant** | **Da** |
| --- | --- |

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Cânt eu gwahodd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a symud yn hyderus rhwng gweithgareddau o'u dewis. Maent yn dewis beth yr hoffent ei fwyta, a chynigir opsiwn arall iddynt os nad ydynt yn hoffi'r pryd sydd ar gael. Caiff cyfathrebu'r plant, ar lafar ac yn ddieiriau, ei gydnabod a'i werthfawrogi. Er enghraifft, ymgysylltodd aelod o'r staff â phlentyn a oedd yn gweiddi, gan gydnabod ei fod yn gweiddi 'helo' at aelod o staff mewn ystafell arall.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel iawn, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac wedi ymlacio gan fod eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu'n gyson ac mae ganddynt gydberthnasau da. Maent yn cael eu cefnogi'n dda wrth symud rhwng ystafelloedd ac mae'r staff yn eu hadnabod yn dda. Mae'r plant yn cael maldod gan y staff ac yn sgwrsio'n hapus â nhw am eu profiadau gartref neu yn yr ysgol. Mae'r plant yn gwybod y gallant gael gafael ar eu heitemau cysur os bydd angen.

Mae'r plant yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae, dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, ymatebodd plant dan ddwy flwydd oed â "*Yeah*!" brwdfrydig pan ofynnwyd iddynt a oeddent am wneud gweithgaredd 'bag caneuon' ac roeddent yn wên o glust i glust pan gafodd peli eu harllwys i mewn i'w 'castell' bocs cardbord. Roedd y plant hŷn yn llawn cyffro wrth chwarae cuddio, ac roedd plant eraill yn cwblhau gweithgaredd lliwio tawelach yn hapus.

Mae'r plant yn dysgu i ystyried eraill, yn unol â'u camau datblygu, a chânt eu cefnogi'n dda i wneud hynny. Maent yn cael cyfleoedd da i fynegi eu teimladau yn ystod gweithgareddau strwythuredig rheolaidd, gan ganolbwyntio ar ddatblygiad personol a chymdeithasol, a thrwy gydol y dydd. Er enghraifft, rhoddodd y plant hŷn eu ffyn lolipop personol yn y pot a oedd yn dangos eu teimladau. Rhoddodd sawl plentyn gwtsh i blentyn pan oeddent yn ffarwelio. Mae'r plant yn cyd-dynnu'n dda ag oedolion.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd chwarae diddorol sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth, megis drwy sychu eu hwynebau eu hunain a golchi eu dwylo. Mae system 'helpwr y dydd' ar waith ar gyfer pob grŵp ac mae'r plant yn mwynhau'r cyfrifoldeb am wneud y tasgau i helpu'r staff am y diwrnod. Mae'r plant hŷn yn dysgu i arllwys eu diodydd eu hunain gyda chymorth y staff.

| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
|---|---|

Ar y cyfan, mae'r staff gofal yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ac yn eu rhoi ar waith er mwyn cadw'r plant iach ac yn ddiogel. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid da wrth newid cewynnau ac yn annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant rheolaidd ar ddiogelu, cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd. Maent yn deall eu cyfrifoldebau yn dda mewn perthynas ag amddiffyn plant. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda pan fyddant yn chwarae ac yn eu hatgoffa i fod yn ddiogel. Maent yn cadw llygad ar fabanod sy'n cysgu yn rheolaidd hefyd. Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliad, nid oedd y plant yn cael eu goruchwylio'n briodol pan oeddent yn bwyta bob amser, er bod digon o staff ar gael yn ystod yr amseroedd hyn. Caiff hyn ei drafod ymhellach yn adran ‘Arweinyddiaeth a Rheolaeth’ yr adroddiad hwn. Mae'r staff yn hyrwyddo ffordd iach o fyw yn weithredol drwy gefnogi'r plant i frwsio eu dannedd yn ddyddiol, darparu bwyd iach ac annog y plant i chwarae yn yr awyr agored yn rheolaidd. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar ddŵr yn hawdd yn yr ystafelloedd gofal plant. Yn ystod ein hymweliad, er bod dŵr ar gael yn yr ardal awyr agored, nid oedd ar gael yn ystod y cyfnod cyfan pan oedd y plant yn yr awyr agored. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod wedi cymryd camau i fynd i'r afael â hyn ar unwaith.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Maent yn canmol ac yn annog y plant yn rheolaidd gan ddweud, er enghraifft, “*That was kind, helping your friends.*” Mae'r staff yn fodelau rôl da i'r plant hefyd, gan siarad yn garedig â'i gilydd ac â'r plant, a dangos dealltwriaeth o anghenion unigol y plant. Mae'r staff yn hamddenol iawn ac yn creu amgylchedd cadarnhaol yn y lleoliad. Pan ddechreuodd grŵp o blant fynd dros ben llestri lle nad oedd yn briodol, yn yr ystafell synhwyraidd, aeth aelod o'r staff ati'n sensitif i ailgyfeirio eu sylw at weithgaredd yn rhywle arall. Pan na wnaeth plentyn dorchi ei lewys yn barod i olchi ei ddwylo, yn unol â'r cyfarwyddyd, dywedodd aelod o'r staff, “*That’s ok, maybe you’ll do it when you get there*.”

Mae'r staff yn cefnogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau unigol yn effeithiol. Maent yn cwblhau sesiynau arsylwi rheolaidd ac ystyrlon o'r holl blant ac yn adolygu eu cynnydd. Maent yn gofyn am wybodaeth fanwl gan y rhieni ac yn creu proffiliau un dudalen ar gyfer y plant, gan ddiweddaru'r rhain wrth iddynt symud drwy'r grwpiau gwahanol yn y lleoliad. Mae gweithdrefnau da ar waith i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol. Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau eraill, pan fo'n berthnasol, i roi strategaethau unigol ar waith er mwyn cefnogi datblygiad a dysgu'r plant. Mae'r staff yn cydweithio i gynllunio gweithgareddau sy'n cefnogi chwarae, dysgu a datblygiad y plant. Maent wedi croesawu'r Cwricwlwm newydd i Gymru ac yn gwerthuso'r gweithgareddau y maent wedi'u cynllunio, gan gynnwys ymgysylltiad, dysgu a dewisiadau'r plant, gan ddefnyddio hyn i lywio gwaith cynllunio yn y dyfodol.

Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn datblygu. Mae'r staff yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg achlysurol, megis "*da iawn*" a "*diolch*". Maent yn nodi geirfa Gymraeg wrth gynllunio gweithgareddau ac maent yn awyddus i barhau i wella hyn.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r lleoliad yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod oherwydd dim ond y staff all agor y drws ac mae'r arweinwyr yn cadw cofnod o bob ymwelydd. Maent yn lleihau risgiau i'r plant drwy gwblhau asesiadau risg ysgrifenedig ac adolygu'r rhain yn rheolaidd. Mae systemau ar waith i archwilio diogelwch yr amgylchedd yn rheolaidd hefyd, megis y system wresogi a'r system drydanol. Mae mesurau diogelwch ar waith, megis gatiau diogelwch rhwng yr ystafelloedd.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd mawr sydd wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion y plant. Maent wedi gwneud llawer o welliannau i'r amgylchedd ac mae ganddynt gynlluniau ar gyfer gwelliannau pellach. Er enghraifft, maent wedi cyflwyno ystafell synhwyraidd er mwyn darparu lle tawel i bob plentyn. Maent wedi gwella'r amgylchedd i blant 3 oed hefyd, er mwyn defnyddio'r lle yn fwy effeithiol a gwella mynediad annibynnol y plant at adnoddau. Mae pob ystafell gofal plant yn addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant. Er enghraifft, mae gan fabanod ddigon o le i ddatblygu eu sgiliau corfforol drwy gropian a chymryd eu camau cyntaf yn ddiogel. Mae'r arweinwyr yn darparu ardal ddiogel ac addas yn yr awyr agored a gaiff ei defnyddio gan bob plentyn. Maent yn myfyrio ar effeithiolrwydd yr amgylchedd o ran diwallu anghenion y plant a darparu cyfleoedd dysgu da. Maent yn nodi meysydd y maent am eu datblygu ymhellach. Mae'r arweinwyr yn darparu ardal lle gall babanod gael llonydd i gysgu a chael eu monitro'n effeithiol. Maent yn trawsnewid ardal chwarae yn lle cyfforddus i'r plant hŷn gysgu, ond nid ydynt yn cael llonydd yn yr ardal hon bob amser.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau y gall bron pob plentyn gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau a chyfarpar sy'n addas ar gyfer oedran y plant, dan do ac yn yr awyr agored, er mwyn ennyn diddordeb y plant a datblygu amrywiaeth o sgiliau. Er enghraifft, maent yn darparu amrywiaeth o adnoddau i ddatblygu sgiliau corfforol y plant, megis cylchoedd hwla, cyfarpar dringo a pheli, ac maent yn darparu cyfleoedd chwarae synhwyraidd rheolaidd i fabanod. Mae'r ardal awyr agored yn darparu cyfleoedd dysgu gwell i'r plant, megis ardal creu cerddoriaeth newydd a lloches lle gall y plant wneud gweithgareddau tawel megis crefftau. Roedd yr holl adnoddau a welsom yn ystod ein hymweliad arolygu yn lân ac mewn cyflwr da.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad. Maent yn darparu gwybodaeth addas i rieni drwy ddatganiad o ddiben a pholisïau'r lleoliad. Maent yn adolygu polisïau yn rheolaidd ac yn rhannu'r rhain â'r staff. Cafodd rhai polisïau eu diweddaru yn ystod yr arolygiad ac mae'r rhan fwyaf o'r polisïau bellach yn cynnwys gwybodaeth glir a chyfredol. Fodd bynnag, nid yw'r polisi diogelu yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu cyfredol Cymru, er bod yr arweinwyr yn ymwybodol ohonynt ac yn eu defnyddio'n ymarferol. Nid yw'r polisi cwynion yn cyfeirio'r darllenydd at y polisi diogelu pe bai cwyn yn ymwneud â mater diogelu.

Ar y cyfan, mae'r arweinwyr yn rheoli'r lleoliad yn briodol. Maent yn cadw cofnodion priodol mewn perthynas â'r plant, megis cofnodion presenoldeb a manylion personol y plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yswiriannau yn gyfredol. Maent yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am newidiadau yn y lleoliad yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid oeddent wedi rhoi gwybod i ni am ddigwyddiadau o bwys, yn unol â'r rheoliadau. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwyr weithredu.

Ar y cyfan, mae prosesau priodol ar waith i reoli'r staff. Mae'r arweinwyr yn gweithredu system effeithiol ar gyfer sefydlu, arfarnu a goruchwylio. Mae'r arweinwyr yn cefnogi ac yn annog y staff i fynychu hyfforddiant rheolaidd, a dywed y staff wrthym fod yr arweinwyr yn eu cefnogi'n dda. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau recriwtio'r staff yn gwbl effeithiol am nad oedd yr arweinwyr wedi cwblhau'r holl wiriadau angenrheidiol ar gyfer yr holl staff cyn eu cyflogi. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwyr weithredu.

Mae gan yr arweinwyr system addas ar gyfer cwblhau'r adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal a ddarperir. Maent yn ceisio barn yr holl bartïon perthnasol ac yn gosod targedau. Maent yn canolbwyntio ar welliant parhaus ac yn ceisio cymorth priodol i'w helpu i gyflawni eu targedau. Maent hefyd yn sicrhau bod pob rhan o'r lleoliad yn cael ei ystyried yn llawn, gan fod y staff ym mhob ystafell yn datblygu ac yn adolygu eu cynllun gweithredu parhaus eu hunain. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau diweddar yn y sector gofal plant. Fodd bynnag, nid oedd yr arweinwyr wedi rhoi newidiadau ar waith i wella diogelwch a llesiant pob plentyn yn ystod amseroedd bwyd na'u monitro'n llwyddiannus. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwyr weithredu.

Mae'r arweinwyr yn meithrin partneriaethau effeithiol. Maent yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni drwy ap ac ar lafar. Maent wedi cyflwyno nosweithiau rhieni hefyd. Mae'r rhieni yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r arweinwyr yn mynd â'r plant allan am deithiau ac am dro yn y gymuned leol. Maent wedi creu partneriaeth â chartref gofal hefyd a nodwyd bod hyn wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 20 | Sicrhau bod y staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol i oruchwylio'r holl blant pan fyddant yn bwyta, gan sicrhau eu hiechyd, eu diogelwch a'u llesiant. | Newydd |
| 31 | Cyflwyno hysbysiadau i AGC mewn perthynas â phob mater perthnasol, o fewn yr amserlen benodedig. | Newydd |
| 28 | Sicrhau bod yr holl wiriadau addasrwydd angenrheidiol yn cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff cyn eu cyflogi. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 20 - Amddiffyn plant | Diweddaru'r polisi diogelu. |
| Safon 22 - Yr amgylchedd | Sicrhau y gall pob plentyn gael llonydd i gysgu. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Diweddaru'r polisi cwynion. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/08/2023